



Polisi ar e-Ddiogelwch

Coleg Catholig Chweched Dosbarth Dewi Sant

2017-18

safety@colegdewisant.ac.uk

Am fwy o wybodaeth ar y polisi, cysylltwch â: abrace@colegdewisant.ac.uk

Cynnwys

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad..... | 3 |
| Ystod y Polisi | 3 |
| Rolau a Chyfrifoldebau..... | 3 |
| Y Dysgwr: | 4 |
| Staff: | 4 |
| Asesu Risg..... | 4 |
| Ymddygiad..... | 4 |
| Cyfathrebu | 5 |
| Y Defnydd o Ddelweddau a Fideo..... | 5 |
| Gwybodaeth Bersonol | 5 |
| Addysg ac Hyfforddiant..... | 5 |
| Achosion ac Ymateb..... | 6 |
| Adborth a Gwybodaeth Bellach | 6 |
| Canllaw Cyfrifoldebau Digidol: Cliciwch ar y linc i cael mynediad (mewnol yn unig)..... | 7 |

Cyflwyniad

Mae Coleg Catholig Dewi Sant yn sylweddoli'r manteision a'r cyfleoedd y mae'r technolegau newydd yn eu cynnig i addysgu a dysgu. Rydyn ni'n annog y defnydd o dechnoleg er mwyn gwella sgiliau a hyrwyddo cyflawniad. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod y rhynggrwyd mor hygyrch ac mor fyd-eang ac amrywiaeth y technolegau sydd ar gael yn golygu ein bod hefyd yn ymwybodol o'r darpar risgiau a'r sialensiau sy'n gysylltiedig â hyn. Ein dull o fynd ati ydy rhoi mesurau diogelu ar waith yn y coleg ac i gynorthwyo staff a dysgwyr i ganfod a rheoli peryglon yn annibynnol. Rydyn ni'n credu y gellir sicrhau hyn drwy gyfuniad o fesurau diogelu, hyfforddiant a chyfarwyddyd a gweithredu ein polisiau perthnasol. I hyrwyddo ein dyletswydd i ddiogelu dysgwyr, byddwn yn gwneud ein gorau glas i sicrhau bod ein dysgwyr yn e-ddiogel ac i gyflawni ein dyletswydd gofal ehangach.

Dylid ystyried y polisi e-ddiogelu hwn ar y cyd â pholisiau eraill perthnasol y coleg e.e. Diogelu, Defnydd Derbyniol, Gwrth-fwlio, Disgyblaeth ac Amddiffyn Plant.

Ystod y Polisi

Mae'r polisi yn berthnasol i holl aelodau cymuned y coleg sy'n cael defnyddio systemau TG y coleg ar eiddo'r coleg ac o hirbell. Rhaid i bob defnyddiwr o systemau TG y coleg lynu at **Gytundeb Defnydd Derbyniol** a llofnodi copi caled o'r cytundeb hwnnw. Mae'r Polisi e-Ddiogelwch yn berthnasol i bawb sy'n defnyddio'r rhynggrwyd a dyfeisiau electronig megis e-bost, ffonau symudol, consolau gemau, safleoedd rhwydweithio cymdeithasol.

Rolau a Chyfrifoldebau

Mae llinellau cyfrifoldeb clir ar gyfer e-ddiogelwch o fewn y coleg. Y grŵp e-ddiogelwch ddylai fod y man cyswllt cyntaf.

'Mae'r holl staff yn gyfrifol am sicrhau diogelwch dysgwyr a dylen nhw riportio unrhyw bryder ar unwaith i'w rheolwr llinell.'

Mae'n ofynnol i'r **holl staff addysgu** fonitro e-ddiogelwch gyda'u dosbarthiadau ac i ddarllen y gweithdrefnau adrodd a glynu atyn nhw. Y weithdrefn ynglŷn â digwyddiadau ydy eu adrodd gyda'r botwm panig neu drwy ddefnyddio'r rhestr bostio ar e-ddiogelwch. Wrth dderbyn gwybodaeth am ddigwyddiad e-ddiogelwch, rhaid i staff ofalu peidio gwarantu unrhyw fesur o gyfrinachedd am yr unigolyn sy'n adolygu, nac ychwaith am y rhai sy'n rhan o'r digwyddiad.

Rhaid i **bob dysgwr** wybod beth i'w wneud os oes ganddo/i bryderon am e-ddiogelwch a gwybod â phwy dylen nhw siarad. Yn y mwyafrif o achosion, aelodau'r grŵp e-ddiogelwch fydd y rhain. Gellir cysylltu â rhain drwy ddefnyddio'r botwm panig neu drwy e-bost ar esafety@colegdewisant.ac.uk. Pan gaiff adroddiad am ddigwyddiad e-ddiogelwch ei

gyflwyno, dylai pob parti pa weithdrefn sy'n cael ei gychwyn a'r camau fydd yn dilyn wedi hynny. Os bydd y rheolwyr yn ei ystyried yn briodol, gellid gofyn i'r swyddog amddiffyn plant i ymyrryd i gynnig cymorth ychwanegol addas gan asiantaethau allanol.

Y Dysgwyr:

Mae'r dysgwyr yn gyfrifol am ddefnyddio systemau TG a dyfeisiau symudol y coleg yn unol â Pholisi'r Coleg ar Ddefnydd Derbyniol a Rheolau e-Ddiogelwch a rhaid iddyn nhw gytuno a'i lofnodi fel rhan o'r polisi ar ddefnydd derbyniol. Mae disgwyl iddyn nhw chwilio am gymorth os byddan nhw'n pryderu neu'n poeni, neu os ydyn nhw'n credu bod achos o e-ddiogelwch wedi digwydd lle mae'r dysgwr yn rhan ohono neu sydd a wnelo ag aelod arall o gymuned y coleg. Rhaid i'r dysgwyr weithredu'n ddiogel a chyfrifol bob amser wrth ddefnyddio'r rhyngwyd a/neu dechnolegau symudol.

Staff:

Mae'r holl staff yn gyfrifol am ddefnyddio systemau TG a dyfeisiau symudol y coleg yn unol â Pholisi'r Coleg ar Ddefnydd Derbyniol a Rheolau e-Ddiogelwch a gweithredu i'w hybu drwy ymgorffori arferion da. Mae staff yn gyfrifol am fynychu hyfforddiant ar e-ddiogelwch a bod yn esiampl i'r dysgwyr bob amser.

Rhaid cynnal pob cyfathrebiad digidol gyda dysgwyr yn unol â pholisi'r coleg ar gyfathrebu a bod yn broffesiynol o ran tôn a chynnwys bob amser. Cyfyngir ar gyfathrebu gyda dysgwyr ar-lein a rhaid gwneud hynny drwy ddefnyddio rhwydwaith y coleg, y VLE neu'r Office 365 yn unig.

Bydd y polisi hwn, fodd bynnag, yn cael ei fonitro a'i adolygu'n gyson.

Dylai'r holl staff ddefnyddio polisïau perthnasol y coleg a deall y gweithdrefnau ar gyfer adrodd ar digwyddiad. Rhaid adrodd unrhyw ddigwyddiad a adroddwyd i aelod o'r staff neu a ganfuwyd gan aelod o staff, i'r Rheolwr Datblygu TGD a/neu i'r rheolwr llinell yn syth.

Asesu Risg

Wrth ddefnyddio'r technolegau newydd a llwyfannau ar-lein, rhaid i'r holl staff yn gyntaf gynnal asesiad risg gyda'r Rheolwr Iechyd a Diogelwch ar gyfer gweithio'n e-ddiogel. Mae hyn yn cynnwys cyfres o gwestiynau i'w hateb yn ogystal ag adran lle gellir cofnodi unrhyw sylwadau perthnasol neu dystiolaeth berthnasol. Rhaid cynnal asesiad risg hefyd pan fydd dysgwr yn dysgu oddi ar y safle e.e. ar leoliad gwaith. Rhaid cyflwyno pob ffurflen i'r Rheolwr Datblygu TGD iddo/iddi eu hystyried a'u cymeradwyo.

Ymddygiad

Bydd Coleg Catholig Dewi Sant yn sicrhau bod pob defnyddiwr y technolegau yn glynu at safon ymddygiad a fynegir yn y Polisi ar Ddefnydd Derbyniol.

Ni fydd y coleg yn caniatáu unrhyw gamddefnydd o'r systemau TG. Ar-lein neu'n all-lein dylai staff a dysgwyr fod yn gwrtais a boneddigaidd bob amser. Caiff unrhyw achos o fwlio neu aflonyddu neu unrhyw ymddygiad annerbyniol arall a gofnodir eu trin yn faterion difrifol ac yn unol â chodau disgyblu dysgwyr a staff.

Os ceir bod ymddygiad yn annerbyniol, bydd y coleg yn delio â'r mater yn fewnol. Os ystyrir bod ymddygiad yn anghyfreithlon, bydd y coleg yn adrodd y mater i'r heddlu.

Cyfathrebu

Mae Coleg Catholig Dewi Sant yn disgwyl i bob defnyddiwr TG lynu at y Polisi ar Gyfathrebu sy'n datgan yn glir pryd y gellid defnyddio e-bost, ffonau symudol, safleoedd rhwydweithio, consolau gemau, ystafelloedd sgwrsio, fideo-gynadleda a chamerâu'r we yn ystod y dydd yn y coleg.

Y Defnydd o Ddelweddau a Fideo

Mae'r defnydd o ddelweddau neu luniau yn boblogaidd wrth addysgu a dysgu a dylid ei annog lle nad ydy rheolau hawlfraint yn cael eu torri na chwaith hawliau unigolyn arall. Bydd hyn yn cynnwys delweddau wedi'u lawrlwytho o'r we a delweddau sy'n eiddo i staff neu i'r dysgwyr.

Gwybodaeth Bersonol

Gwybodaeth bersonol ydy gwybodaeth am berson byw penodol. Mae Coleg Dewi Sant yn casglu gwybodaeth bersonol am ddysgwyr a staff yn gyson ac yn ei storio e.e. enw, dyddiad geni, cyfeiriad e-bost, deunydd asesu ayb. Bydd y coleg yn cadw'r wybodaeth honno yn ddiogel ac ni fydd yn ei throsglwyddo i unrhyw berson arall heb gael caniatâd y dysgwyr.

Ni ellir postio gwybodaeth bersonol ar wefan y coleg heb ganiatâd yr unigolyn. Ni fydd gwybodaeth bersonol am staff na ddysgwyr ar gael ar y wefan.

Rhaid i'r staff gadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel a chadarn bob amser. Pan fyddan nhw'n defnyddio llwyfan ar-lein, rhaid cael cyfrinair i'w ddiogelu. Ni chaniateir gwybodaeth bersonol am unigolion oddi ar y safle oni bai bod yr aelod o staff wedi cael caniatâd eu rheolwr llinell. Mae gofyn i bob defnyddiwr o adnoddau allgofnodi ar ôl cwblhau unrhyw weithgaredd neu os nad ydyn nhw'n llythrennol yn aros yn ymyl y ddyfais.

Os na fydd angen y data personol mwyach, rhaid ei ddileu yn llwyr yn unol â'r polisi ar Reoli Data.

Addysg ac Hyfforddiant

O gofio nad yw mynediad i'r we yn cael ei gyfyngu ar hyn o bryd, mae'n amhosibl i'r coleg ddileu pob risg ar gyfer staff a dysgwyr. Felly, yn ein barn ni, dylai'r coleg gynorthwyo staff a

dysgwyr Tudalen 6 drwy hyfforddiant ac addysg. Bydd hyn yn rhoi'r sgiliau iddyn nhw allu canfod y risgiau yn annibynnol a'u rheoli yn effeithiol.

Mewn dosbarthiadau, anogir dysgwyr i gwestiynu pa mor ddilys a dibynadwy ydy'r deunyddiau a ddarllenwyd neu a lawr lwythwyd neu a gafwyd drwy ffrwyth ymchwil. Byddan nhw hefyd yn cael eu hannog i barchu hawlfraint partion eraill ac i ddyfynnu ffynonellau'n briodol.

Bydd staff yn cael hyfforddiant e-ddiogelwch cyn cychwyn blwyddyn coleg newydd. Bydd hyn dan arweiniad y Rheolwr Datblygu TGD a bydd ar ffurf gweithdy a fydd yn caniatáu i athrawon gael profiad ymarferol. Bydd yr holl staff yn derbyn adnoddau pellach ar gyfarwyddyd a gwybodaeth ddefnyddiol yn dilyn y sesiwn.

Bydd unrhyw ddefnyddiwr dros dro neu newydd yn derbyn hyfforddiant ar system TG y Coleg, dan arweiniad y Rheolwr TGD. Bydd gofyn iddyn nhw hefyd lofnodi Polisi'r coleg (staff) ar Ddefnydd Derbyniol a'r Rheolau e-Ddiogelwch.

Achosion ac Ymateb

Os caiff achos o e-ddiogelwch ei adrodd i'r coleg, delir ag e yn ddifrifol iawn. Bydd y coleg yn gweithredu ar unwaith i rwystro cyn belled ag y bo'n rhesymol bosibl, rhag i ragor o niwed ddigwydd. Os bydd dysgwr yn dymuno adrodd ar achos, gall wneud hynny drwy ei diwtor personol neu i Reolwr Datblygu TGD y coleg. Os bydd aelod o staff yn dymuno adrodd am achos, rhaid iddyn nhw gysylltu â'u rheolwr llinell. Yn dilyn unrhyw achos, bydd y coleg yn adolygu'r hyn sydd wedi digwydd a phenderfynu ar y camau gweithredu mwyaf priodol a chymesur. Gellir sefydlu sancsiynau, ymglymu asiantaethau allanol neu ddatrys y mater yn fewnol yn dibynnu ar ba mor ddifrifol ydy'r achos. Mae hyn yn unol â Pholisi'r coleg ar Ddefnydd Derbyniol. Yr uwch reolwyr fydd yn delio ag achosion difrifol mewn ymgynghoriad â'r asiantaethau allanol priodol.

Adborth a Gwybodaeth Bellach

Bydd Coleg Catholig Dewi Sant yn croesawu adborth adeiladol ar hyn ac ar unrhyw bolisi arall o eiddo'r coleg. Os hoffech ragor o wybodaeth ar e-ddiogelwch neu os ydych yn dymuno anfon eich sylwadau ar ein Polisi ar e-Ddiogelwch aton ni, cysylltwch â: safety@stdavidscollege.ac.uk, neu ein Rheolwr Datblygu TGD.

***Neges i staff: Bydd y polisi hwn yn cael ei diweddarau ar gyfer y flwyddyn academaidd 2018/2019**

Bydd hyn yn ystyried:

- Canllawiau Statudol Amddiffyn Plant 2018
- Rheoliadau GDPR 2018
- Ceisiadau ar gyfer dysgu a dyfeisiau symudol
- Dod â'ch dyfeisiau eich hun
- Diogelu

- Cyfathrebu mewnol ac allanol
- Bydd pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant cyn y flwyddyn academaidd nesaf a bydd yn ofynnol iddynt darllen y polisi wedi'i diweddarau a'i llofnodi.
- Rhoddir copi digidol o'r polisi i'r holl staff a myfyrwyr

Canllaw Cyfrifoldebau Digidol: Cliciwch ar y linc i cael mynediad (mewnol yn unig)

[Canllaw Cyfrifoldebau Digidol Coleg Dewi Sant 2018](#)